HYDREF 2026
RHIFYN 36
ubc.cymru

UBC BUW



y Negesydd

CLOs Newydd: Gobaith a Her

Esgyn Plus: Mynd yn Ddyfnach

Gweddi ar Draws Cymru

Pobl Ifanc yr Alban

a mwy...

CYNNWYS

RHIFYN 36

1 Clawr
2 Gair Golygyddol
3 Cenhadaeth: CIOs: Her a Gobaith
4 Esgyn Plus
5 Teyrnged Helen
6 Newyddion UBC
7 Newyddion ar draws y Byd
8 Dod i nabod... Maggie Hughes

Cynhyrchir Y NEGESYDD dair gwaith y flwyddyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Serch hynny, ni ddylid cymryd safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn fel petaent yn cynrychioli barn swyddogol yr Undeb ar unrhyw fater.

GAIR golygyddol

HYDREF 2026



Mae'n siŵr ein bod yn profi cymaint o wahanol emosiynau wrth i ni glywed newyddion o ddydd i ddydd am yr hyn sydd yn digwydd yn ein cenedl, ac ar draws ein byd. Mae pethau'n gallu teimlo'n dywyll ac yn flinderus ar adegau – wrth i ni glywed penawdau am 'ryfeloedd a sôn am ryfeloedd', peryglon technolegau neu afiechydon newydd, neu'r hinsawdd economaidd gyson-anodd yr ydym yn byw ynddi.

Ar yr un pryd, efallai bod rhai ohonom weithiau'n ymwybodol o ryw obaith herfeiddiol yn codi - mewn ymateb i straeon o Dduw ar waith mewn ffyrdd pwerus a rhyfeddol yn ein dydd ni. Clywn straeon am bobl ifanc yn dod i ffydd mewn ffyrdd rhyfeddol ar draws Cymru a'r DU, am enwogion sydd wedi brwydro gydag iselder a phob math o anawsterau yn darganfod ffydd a iachâd yn y newyddion da, ac am y ffyrdd ffyddlon y mae ein heglwysi yn tystiolaethu i gariad Crist yn ein cymunedau.

Sut y gwnawn synnwyr o'r eithafion hyn: o oleuni a thywyllwch, o ddychryn a gobaith, ofn a ffydd... yn enwedig pan y teimlwn y rhain i gyd ar yr un pryd weithiau? Adnod sydd wedi bod yn dod yn ôl o hyd ataf fi yw Eseia 43:2: "Pan fyddi di'n mynd drwy lifogydd, bydda i gyda ti; neu drwy afonydd, fyddan nhw ddim yn dy gario di i ffwrdd. Wrth i ti gerdded drwy dân, fyddi di'n cael dim niwed; fydd y fflamau ddim yn dy losgi di."

Mae'r adnod hon yn hynod bwerus, nid yn unig achos ei bod yn addo y bydd presenoldeb Duw gyda ni, ond achos bod yr addewid yn dod yng nghanol adfyd. Credaf fod gwir hyder yn deillio – nid o gredu y bydd pethau yn gwella, ac y bydd amgylchiadau heriol yn cilio – ond o gredu, hyd yn oed yng nghanol yr amgylchiadau hynny, bod modd i ni brofi presenoldeb, pŵer a chariad Duw.

Mae'r rhifyn hwn o'r Negesydd yn dal y pethau hyn mewn tensiwn: tra'n edrych i dymor newydd cyffrous fel teulu UBC, mae Marc Owen (t.3) yn ein gwahodd ni i arfer hyder, ac enwi'r realiti anodd yr ydym yn ei weld o'n blaenau, tra hefyd yn edrych y tu hwnt i'n golwg ddaearol i'r Un sydd yn uwch ac yn fwy. Clywn straeon am bobl yn gwneud yn union hynny: clywn am bobl ifanc ar benwythnos Esgyn Plus, yn wynebu eu hofnau am bŵer y môr, ac yn profi presenoldeb Duw wrth iddyn nhw wneud hynny (t.4). Clywn hanes Maggie, a rhai o'r heriau a wynebodd ar hyd ei bywyd, gan gynnwys caledi ariannol a cholled – sydd wedi arwain at fendith nifer yn y tymor hwn o fywyd yng Nghaernarfon (t.8). Cofiwn Helen – a'i dewrder yn wynebu dyddiau heriol iawn, ond hithau'n dal ati, ac yn glynu yn ei ffydd yn yr Arglwydd, ac yn ysbrydoli nifer trwy ei bywyd (t.5). Clod i Dduw am y straeon hyn o oleuni yng nghanol tywyllwch, dewrder yn wyneb ofn, iachâd yn wyneb gwir boen. Mae'r rhain yn ein hatgoffa yn y pen draw am yr Un 'trwy ei gleisiau ef y cawsom ni iachâd.' (Eseia 53:5)

Yng Nghrist,

Sioned Graves (Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu)

CENHADAETH

Y CIOs: Gobaith a Heriau



Ar **yr 28ain o Fedi,** cyfarfu grŵp o ymddiriedolwyr CIO newydd yn Aberystwyth ar gyfer diwrnod hanesyddol yn nhaith UBC.

Yn 2021, ysgrifennwyd adroddiad o'r enw **'Adroddiad 2041'** a oedd yn archwilio tueddiadau ystadegol o fewn teulu UBC. Er bod yr adroddiad yn un sobr, roedd hefyd yn gatalydd ar gyfer math gwahanol o ymateb: un llawn ffydd weddigar, fel rhai sy'n credu mewn Duw sy'n dal i weithio yn ei fyd ac yn ei Eglwys. Un ymateb allweddol i'r adroddiad hwnnw oedd cychwyn proses sefydlu **4 corff rhanbarthol newydd (CIO / SEC),** fydd yn cefnogi ein Cymanfaoedd a'n heglwysi mewn cenhadaeth. Roedd cyfarfod yr ymddiriedolwyr yn Aberystwyth yn foment hanesyddol wrth sefydlu'r SECs newydd hynny. Fe wnaeth **Marc Owen,** oedd yn bresennol, rannu rhai o'i fyfyrdodau gyda ni ar y daith sydd o'n blaenau fel teulu UBC...

Gallwn dreulio cryn dipyn o amser yn meddwl: am Gymru; am ein heglwysi; am adeiladau a chyllid; am strwythurau a llywodraethu... Mae'r rhain i gyd yn bethau pwysig. Nid ydynt wedi eu gwahanu o'r bywyd ysbrydol. Yn wir, rhan o ffyddlondeb Cristnogol yw bod yn barod i wynebu realiti fel y mae. Gwnaeth proffwydi Israel felly; gwnaeth Iesu felly; a dyna hefyd wnaeth yr apostolion. Mae'r Beibl yn rhyfeddol o ddisentimental am realiti.

> *"Rhan o ffyddlondeb Cristnogol yw ein bod yn barod i wynebu realiti fel mae"*

Mae ffydd Gristnogol yn ein gwlad *wedi* dirywio; Mae nifer y bobl sy'n uniaethu â'r teitl "dim crefydd" *wedi* cynyddu; mae ein heglwysi yn heneiddio. Mae'r heriau'n ddirfawr.

Ond efallai, ar adegau, mae rhaid camu'n ôl o hyn oll. Oherwydd mae perygl bod rhai ohonom - yn enwedig y rheiny ohonom sydd mewn swyddi cyfrifol - yn gallu dechrau dychmygu bod dyfodol yr Eglwys yn dibynnu ar ansawdd ein hymatebion i'r heriau.

Yn Ioan 15:1–8, yn un o anerchiadau olaf Iesu i'w ddisgyblion, nid yw Iesu'n dweud: "Gweithiwch yn galetach"; "Dewch o hyd i'r strategaeth iawn"; "Deallwch bob rhan o'r dyfodol". Mae Iesu'n dweud: "Arhoswch ynof fi".


Nid yw Gobaith yn gofyn i ni esgus nad yw dirywiad, neu fethiant, neu farwolaeth, neu ofn, neu bethau anodd yn bodoli. Meddyliwch am Eseciel yn sefyll yn nyffryn yr esgyrn sychion. Nid yw Duw yn dweud wrtho: "Paid â phoeni, Eseciel. Dyw'r dyffryn ddim mor sych mewn gwirionedd!" Mae'n gofyn iddo edrych. I weld. I enwi'r hyn sydd yno mewn gwirionedd. Ac yna mae Duw yn gofyn: "Mab dyn, all yr esgyrn hyn fyw?"

Ac mae Eseciel yn rhoi ateb rhyfeddol o 'ofalus': "ARGLWYDD, dim ond ti sy'n gwybod hynny." Mae doethineb yma! *Nid ydym* yn gwybod sut olwg fydd ar y deng mlynedd nesaf; *nid* ydym yn gwybod o ble y bydd y genhedlaeth nesaf o arweinwyr yn dod; *nid* ydym yn gwybod beth all Duw ei wneud eto mewn cymunedau sy'n ymddangos yn bell o'r ffydd Gristnogol. Ond rydyn ni'n adnabod yr Un sydd *yn* gwybod! Ac mae hynny'n newid pethau'n fawr. Mae Duw yn aml ar waith mewn ffyrdd sydd yn guddiedig i ni. Mae hedyn yn diflannu i'r ddaear cyn i unrhyw beth ymddangos ar arwyneb y ddaear. Mae'r groes yn edrych, i lygaid dynol, fel trychineb. Ond - mae Duw ar waith! Rhaid i ni weld realiti yn glir, ond peidier â drysu'r hyn y gallwn ei 'weld' â'r realiti cyfan.

Mae hynny'n dod â ni yn ôl at eiriau Iesu: "Fi yw'r winwydden; chi yw'r canghennau" Mae'n ddelwedd hardd. Ac mae hefyd yn un sydd yn ein cadw'n ddarostyngedig am nad yw'r canghennau yn gyfrifol am roi bywyd i'r winwydden. Yr 'alwad' i'r gangen yw aros yn gysylltiedig i'r winwydden. *Rydym* yn gyfrifol am aros yn ffyddlon i Dduw a'i alwad. Nid ydym yn gyfrifol am achosi i Deyrnas Dduw ddigwydd! Dywedodd Iesu: "Arhoswch ynof



> *"Arhoswch. Gweddïwch. Gwrandewch. Dirnadwch... Meddwch ar ddewrder pan fod angen dewrder."*



fi". Dim: "Rheolwch y dyfodol." Ond: Arhoswch. Gweddïwch. Gwrandewch. Dirnadwch. Gweithredwch yn ffyddlon. (Edifarhewch pan fo angen!) Meddwch ar ddewrder pan fod angen dewrder. Arferwch amynedd pan fod angen amynedd. Ac ymddiriedwch yn Nuw. Mae hefyd rywbeth arwyddocaol am yr ieithwedd 'tocio'. Dywed Iesu: "Os oes ffrwyth yn tyfu ar gangen, [mae'r garddwr yn] trin ac yn tocio'r gangen honno'n ofalus er mwyn i fwy o ffrwyth dyfu arni.' Nid methiant felly yw tocio. Mae tocio yn rhywbeth y mae'r garddwr yn ei wneud yn union achos bod y planhigyn yn bwysig.

Efallai bod pethau rydyn ni wedi'u hetifeddu fel teulu UBC na ddylent barhau yn syml achos eu bod wedi bod yno erioed. Efallai y bydd rhagdybiaethau fydd angen eu cwestiynu. Efallai bydd strwythurau a wasanaethodd tymhorau blaenorol nad ydynt bellach yn gwasanaethu cenhadaeth mewn ffordd effeithiol heddiw. Efallai bod pethau rydyn ni'n eu caru y mae'n rhaid i ni eu rhyddhau. Gall hyn fod yn boenus.

Ond dywed Iesu hefyd: 'Dyma sut y gogoneddir fy Nhad: trwy i chwi ddwyn llawer o ffrwyth a bod yn ddisgyblion i mi.' Ioan 15:8. Yma, mae addewid ffrwyth. Mae hynny'n dod â ni yn ôl at rai o'r ystadegau hynny. Mae'r ystadegau yn sôn am bobl - yn enwedig cenhedlaeth iau - nad oes gan grefydd ffurfiol unrhyw berthnasedd personol iddynt. Yn hytrach na gofyn: "Pam nad ydyn nhw'n dod aton ni?" efallai y dylwn ofyn: "Ble maen nhw, a sut allwn ni eu cyrraedd?" Mae Duw yn eu caru nhw! Nid fel ystadegau, nid fel demograffig, ond fel unigolion. Efallai un o'r gweddïau mwyaf arwyddocaol y gallwn fod yn ei gweddïo heddiw yw: "Arglwydd Iesu, helpa ni i ddwyn ffrwyth. Rho lygaid i ni weld y bobl rwyt ti eisoes yn gweithio ynddynt, ac anfona ni atyn nhw." Mae Ysbryd Duw ar waith yng Nghymru. Mae Iesu yn Arglwydd. A gwahoddir ni i ymuno â'r hyn y mae Duw yn ei wneud.



Mynd Ymhellach

Ym mis Medi eleni, *cafodd penwythnos cyntaf erioed Esgyn+ i ieuenctid 16-21 oed ei lansio. Dyma* ***Sioned Graves*** *yn rhoi blas bach i ni o'r penwythnos...*

"I ddechrau, roeddwn i'n wirioneddol ofnus – a go iawn yn credu y byddwn i'n marw! Ond yna, gweddïais i, ac ildio i Dduw, ac yn sydyn doeddwn i ddim mor ofnus! Ar ôl hynny, bob tro y byddai ton fawr yn dod tuag ataf fi, roedd hi fel petawn i'n gwybod ei fod E'n fy nal i yn Ei ddwylo, a'm mod i'n ddiogel."

Beth sy'n digwydd pan fod 9 o bobl ifanc o dair eglwys wahanol yn mynd am dair noson i rywle nad ydyn nhw erioed wedi bod o'r blaen, yn gwneud pethau beiddgar nad ydynt efallai erioed wedi cael y cyfle i'w gwneud o'r blaen, ac yn gofyn cwestiynau nad ydynt fel arfer yn eu gofyn yn eu bywydau bob dydd? Ac – eu bod yn mynd gyda'r bwriad o fynd ymhellach yn eu taith ffydd? Yr ateb – pe baech yn gofyn i rai o'r bobl ifanc hynny – yw bod Duw yn gweithio!

> *"Yn sydyn doeddwn i ddim mor ofnus... roedd hi fel petawn i'n gwybod ei fod E'n fy nal i yn Ei ddwylo"*

Ym mis Medi eleni, gwnaeth criw o bobl ifanc ac arweinwyr yn union hynny, a theithio i Dyddewi ar gyfer y penwythnos Esgyn + cyntaf erioed.

Lansiwyd Esgyn yn gyntaf yn 2024 gan dîm dwyieithog a ffurfiwyd o bob rhan o deulu UBC, gyda'r bwriad o roi lle i bobl ifanc gael amser gwych gyda'i gilydd, adeiladu cyfeillgarwch, ac archwilio antur adnabod Iesu. Dyw'r 'archwilio' hwn, mae'n debyg, ddim yn unig yn golygu cwrdd â Duw mewn cyfnodau gwych o ddysgeidiaeth neu addoliad neu weithgareddau grŵp, ond mae'n gyson wedi cynnwys profiadau eithaf anhygoel yn yr awyr agored, lle mae'n ymddangos bod yr Arglwydd yn dal i garu datgelu Ei ogoniant a'i ddaioni – ymhell ar ôl i'r disgyblion brofi rhywbeth nad rhy annhebyg mewn cwch stormus yng Ngalilea! Nid oedd Esgyn Plus

> *"Ymddengys bod yr Arglwydd yn dal i garu datgelu Ei ogoniant a'i ddaioni [yn yr awyr agored] – ymhell ar ôl i'r disgyblion brofi rhywbeth [tebyg] mewn cwch stormus yng Ngalilea!*

yn wahanol - gyda'r eithriad ei fod yn amser wedi'i neilltuo i bobl ifanc 16-21 oed sydd am fynd yn ddyfnach yn eu taith ffydd. Un o'r caneuon a ganwyd ar ddiwrnod olaf Esgyn Plus oedd "Fy Iesu, 'Ngwaredwr". Cymerodd y geiriau "plyga'r mynyddoedd a rhua'r môr" ystyr hollol newydd i 14 o'r bobl ifanc ac arweinwyr a oedd ddiwrnod o'r blaen wedi mentro allan i arfordir Gogledd Sir Benfro gyda thîm o TYF Outdoors i brofi rhuo a thaflu'r môr wrth iddynt gael eu harwain dros glogwyni a thrwy donnau'r môr.

Wedi dweud hynny, doedd Esgyn+ ddim i gyd yn ddramatig! Roedd y penwythnos yn Nhyddewi eleni yn cynnwys profiadau mor amrywiol â: marshmallows a gitâr o amgylch y tân, adegau o dawelwch a myfyrio mewn lleoliad hyfryd, cael croeso gan arweinwyr eglwys leol Y Groesfan gyda lasagne cartref, mynd i'r traeth lleol (7 munud ar droed!), a chrwydro o gwmpas Tyddewi gyda hufen iâ.

Roedd yr amserau llai dwys yn sicr wedi'u cytbwyso gan y rhai uwch eu "hansawdd", a gan awydd gwirioneddol y bobl ifanc i archwilio mwy o'r hyn y mae'n ei olygu i fyw fel disgyblion i Grist yn eu cenhedlaeth nhw.

"[Roedd] awydd gwirioneddol [gan] y bobl ifanc i archwilio'r hyn y mae'n ei olygu i fyw fel disgyblion i Grist."

Cawsom fendith hyfryd hefyd wrth ddysgu oddi wrth rai o brofiadau ffydd tîm Esgyn+, yn ogystal â chlywed safbwyntiau a phrofiadau anhygoel BMS World Mission, trwy law Orla Moxon oedd yn cynrychioli BMS World Mission ar y penwythnos.

Wedi dweud hynny, rhai o'r cyfnodau cyfoethocaf a mwyaf rhyfeddol o ddysgu dros y penwythnos oedd pan oedd cyfle i'r bobl ifanc allu rhannu ac archwilio eu meddyliau eu hunain am sut roedd Duw wedi bod yn siarad â nhw - trwy'r Beibl, trwy adegau o fawl, a thrwy rai o'r profiadau anhygoel a gawsant wrth archwilio'r arfordir. Dyna pan glywsom oddi wrth rai o'r merched - nad oeddent erioed wedi gwneud unrhyw beth fel hyn o'r blaen ond wedi cymryd camau (llythrennol!) ffydd i oresgyn eu hofn, a darganfod yn y broses fod yr Arglwydd wir yn golygu yr hyn a ddywedodd yn Eseia 43:2: y byddai Ef gyda nhw pan fyddent yn "mynd trwy'r dyfroedd"!

A oedd Esgyn Plus yn benwythnos i'w gofio i'r sawl ohonom a oedd yno?

Yn bendant, oedd.

TEYRNGED HELEN



Gyda thristwch mawr y cyhoeddwyd marwolaeth ein ffrind a chyd-weithiwr annwyl ***Mrs Helen Wyn*** *a hunodd yn dawel yn yr Iesu ar 26 Gorffennaf 2026. Dyma deyrnged ar ran UBC oddi wrth* ***Dr Christian Tucker-Williams****, oedd yn cyd-weithio ochr yn ochr â Helen dros y blynyddoedd diwethaf.*

Roedd Helen yn aelod gwerthfawr o dîm Swyddfa UBC ac yn uchel ei pharch ym mhlith teulu'r Bedyddwyr. Fel Cydlynydd Y Gorfforaeth, roedd Helen wedi cynorthwyo nifer fawr o eglwysi, gweinidogion ac aelodau ledled Cymru - a'i chyngor doeth a'i chyfeillgarwch yn fendith i gynifer.

Un o gryfderau mwyaf Helen yn y gwaith oedd ei chalon fugeiliol a'i chonsyrn didwyll dros achos Iesu Grist a'i bobl. Yn ystod yr wythnosau a misoedd diwethaf ers iddi huno, rydym wedi derbyn nifer o negeseuon gan weinidogion, eglwysi a chymanfaoedd yn mynegi'r gwerthfawrogiad o'r modd roedd Helen wedi cynorthwyo a **gofalu** amdanynt – a hynny yn aml iawn mewn amgylchiadau heriol. Teg yw dweud bod tîm bychan swyddfa UBC yn fwy o deulu na thîm. Roedd Helen yn rhan annatod o'r teulu hwnnw. Roedd hi'n fraint ac yn fendith i gael cydweithio gydag un oedd yn llwyr ymroddedig i'w gwaith a'i chydweithwyr. Mae eisiau Helen yn barod i'w deimlo'n fawr yn y swyddfa – ei chwmni cynnes, sgyrsiau digri ac yn enwedig y defosiynau roedd hi'n paratoi ar gyfer y cyfarfodydd staff gyda myfyrdodau Beiblaidd, gweddïau ac emynau oedd pob tro yn annog ac ysbrydoli. Roedd Helen yn berson llawn egni a brwdfrydedd oedd yn ceisio gwneud y mwyaf o bob cyfle a'r gorau o bob sefyllfa a hynny mewn ffydd yng Nghrist. Diolchwn am ei hagwedd a'i hesiampl a erys yn ysbrydoliaeth inni gyd.

Fel teulu Bedyddwyr Cymru cofiwn yn dyner am Eirian, Fflur a'r teulu yn ogystal â theulu Eglwys Siloam, Brynaman (lle roedd Helen yn aelod, diacon ac ysgrifennydd) yn eu colled. Diolchwn am ei ffydd gadarn yn Iesu - yr un a wasanaethodd mor ffyddlon.

Gweddïwn y bydd gobaith ei ffydd hi yn gysur i'w theulu a'i hanwyliaid dros y misoedd a ddaw.



Dde: Helen gyda rhai o'i chydweithwyr yn 2024

NEWYDDION
ar draws



Croeso Mawr i Natalie!

Gwelwyd tyrfa fawr a llawen yng nghapel Penuel Newydd Casllwchwr ddechrau mis Hydref i groesawu'r Parch. Natalie Morgan fel gweinidog yno.

Cafwyd pregeth gan Y Parch Irfon Roberts. Cyflwynwyd Natalie ar ran Bethania, Aberteifi gan David Peregrine ac ar ran Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion gan Rhidian Evans. Roedd sawl cynrychiolydd o'r Undeb, Coleg y Bedyddwyr Caerdydd a Chymanfa Gorllewin Morgannwg yno - ac wrth gwrs, tyrfa fawr o deulu Penuel Newydd Casllwchwr. Mae gwreiddiau Natalie yn wreiddiol o'r Gelli, Sir Benfro, ond mae hi wedi bod yn fendith i sawl wrth iddi bregethu ar draws capeli y Gorllewin dros y blynyddoedd diwethaf. Gweddïwn bod bendith arni hi ac ar deulu eglwys Penuel Newydd wrth iddynt fentro i gyfnod newydd gyda'i gilydd.



Lansio Pererindod 7 Dinas yn y Tabernacl, Caerdydd

Fe chwaraeodd y Tabernacl, Caerdydd rôl arbennig yn lansio taith Pererindod 7 Dinas 24/7 Prayer ym mis Hydref, gyda nifer o eglwysi a Christnogion yn cymryd rhan mewn diwrnod arbennig o weddi, mawl a thystiolaeth.

Ar yr 2il o Hydref, fe lansiwyd Pererindod 7 Dinas Cymru - sef cyfres o ddiwrnodau o weddi, dathlu a thystiolaethu ar draws 7 Dinas Cymru, a drefnwyd gan sefydliad 24/7 Prayer. Dechreuodd y daith yn y brifddinas, a chroesawyd nifer o'r ddinas i Eglwys y Tabernacl ar gyfer diwrnod llawen o fawl, cyd-weddïo, ac uno fel Cristnogion o bob ffrwd. Roedd hi'n ddiwrnod cyffrous wrth i niferoedd trwy'r dydd godi gweddïau, rhoi diolch, ac eiriol dros y rhanbarth - y byddai pwrpasau yr Arglwydd yn cael eu gwireddu yn y ddinas a thu hwnt. Roedd hefyd cyfle i'r rhai oedd yn pasio ddod i mewn i brofi'r stafell weddi, dderbyn gweddi, a darganfod mwy.

Ym mhob safle yn y Berereindod, bydd carreg / cofeb 'Ebeneser' yn cael ei chodi i farcio'r achlysur, ond hefyd - yn llawer mwy na hynny - byddant yn ymddwyn fel ysgogiad i drigolion y ddinas ddysgu am hanes cyfoethog Cristnogol y rhanbarth, a chael cyfle i godi gweddi eu hunain. Codwyd y gofeb weddi y tu allan i'r Tabernacl gyda'r hwyr, gyda mawl a gweddïau yn y ddwy iaith yn atsain ar draws yr Ais.

Ar ôl diwrnodau tebyg yn Abertawe a Chasnewydd ym mis Hydref, bydd y bererindod yn parhau i ddinasoedd Gorllewin a Gogledd Cymru yn y Flwyddyn Newydd *(dyddiadau i'w cadarnhau ar sianeli 24/7 Prayer).*





Gweddi '27

Mae gwahoddiad i deulu UBC ymuno unwaith eto mewn tymor o weddi arbennig dros fisoedd cyntaf 2027!

Ar ôl lansio tymor o weddi bendithiol ddechrau eleni (Gweddi '26), mae nifer o deulu UBC wedi teimlo bod galwad i barhau gyda rhywbeth tebyg wrth edrych at 2027, gydag

Cynllun Disgyblion Cenhadol 2027/28

Mae UBC yn lansio cynllun Blwyddyn Hyfforddiant (Blwyddyn Disgyblion Cenhadol, *chwith, isod*) unwaith eto ar gyfer 2027 / 28, ac mae ceisiadau bellach ar agor!

Daw'r cynllun hwn ar ôl lansio model cychwynnol y llynedd, ychydig flynyddoedd ar ôl ein rhaglen ddiwethaf 'Tîm i Gymru'. Bydd un Flwyddyn Cynllun Disgyblion Genhadol wedi'i lleoli eto yn Eglwys y Bedyddwyr Caersalem (Iaith Gymraeg), a'r ail yng Nghymanfa Bedyddwyr Gwent (iaith Saesneg). Mi fydd y ddau yn rhedeg o fis Medi 2027. *Os ydych chi'n nabod pobl ifanc a chanddynt galon dros genhadaeth, yr eglwys leol, neu am ddatblygu eu sgiliau dros flwyddyn o hyfforddiant amrywiol – cyfeiriwch nhw at carwyn@ubc.cymru. Dyddiad Cau: 9fed o Ebrill 2027.*

Cynadleddau 2027

Rydym yn gyffrous i rannu dyddiadau cynadleddau UBC ar gyfer 2027 - i'w nodi yn eich dyddiadur!

Bydd y **Gynhadledd Gymraeg** yn teithio i Fangor haf nesaf ar y 17eg-18fed o Fehefin, i groesawu'r Parch. Casi Jones fel Llywydd newydd. Bydd cynhadledd iaith Saesneg **Momentum** yn dychwelyd eto hefyd haf nesaf, ar y 26ain o Fehefin, gyda chroeso arbennig i deuluoedd a rhai o bob oedran.

(parhâd) ymwybyddiaeth bod nifer o ddechreuadau newydd yn ein plith, tystiolaeth o Dduw ar waith, ar y cyd gyda heriau, a chred gadarn mewn Duw sydd am ein nerthu, ac iachàu ein cenedl.

Byddwn yn dod at ein gilydd ar y dyddiadau isod i weddïo:

- Ionawr 27ain
- Chwefror 26ain *(noder bod digwyddiad gweddi a mawl Cant i Gymru: Diwrnod dros Gymru yn digwydd ar y 27ain o Chwefror)*
- Mawrth 16eg *(oriau cadwyn weddi i'w chadarnhau)*

Croeso i eglwysi, unigolion neu grwpiau ymuno â ni dros y cyfnod hwn o weddi, gydag adnoddau i ddilyn ar gyfer eglwysi, unigolion a grwpiau.

NEWYDDION ar draws y Byd







O'n Chwaer Undebau: BUS

Mae'r Negesydd yn dechrau cyfres newydd: "O'n Chwaer Undebau". Bydd y gyfres hon yn rhoi siawns i ni ddysgu a chlywed oddi wrth ein brodyr a chwiorydd yng Nghrist ar draws y teulu Bedyddiedig byd-eang. Y tro hwn, dechreuwn yn agos at adref gydag Undeb Bedyddwyr yr Alban (BUS), a chlywed sut y mae'r Arglwydd yn benodol ar waith ymhlith cenedlaethau iau...

Er bod yr Alban yn wynebu llawer o heriau tebyg i'r rhai yr ydym yn eu hwynebu yma yng Nghymru, does dim amheuaeth bod Duw ar waith mewn ffyrdd hyfryd.

Anogaeth arbennig yw sut mae'r Arglwydd wedi bod ar waith ymhlith y cenedlaethau iau. Ym mis Gorffennaf, daeth rhyw 1,900 o bobl ifanc at ei gilydd ar gyfer gŵyl ieuenctid 'Magnitude' dros bum niwrnod, gŵyl sy'n canolbwyntio ar addoliad, dysgeidiaeth, amserau o gymdeithas, ac ymateb gweddigar bersonol. Mae teulu BUS yn chwarae rhan allweddol yn yr ŵyl hon bob blwyddyn, gyda llawer o arweinwyr eglwys, grwpiau ieuenctid a gwirfoddolwyr yn cymryd rhan.

Ar lefel leol hefyd, mae'n amlwg bod rhywbeth yn deffro ymhlith pobl ifanc – yn enwedig yng nghyd-destun addoliad. Rhanna Oliver Fourie, oedolyn ifanc sydd yn cynnal noson o fawl yn Westwood Baptist, "Dwi wir yn teimlo bod yna ddyhead am fwy o addoliad yn yr Alban. Mewn cymaint o ddigwyddiadau, dwi'n clywed am fwy a mwy o bobl yn dod i ffydd, ac maen nhw'n sychedig am fwy o gyfloedd i addoli, am fwy o ddysgeidiaeth... jest ***mwy***!" Un enghraifft o hyn yw'r nifer o nosweithiau mawl sydd yn cael eu trefnu gan oedolion ifanc yn nheulu BUS. Un arall yw Presence Worship Night, noson o fawl yn Glasgow sydd yn cael ei chynnal yn fisol ers Covid-19, gan arweinwyr ifanc Marc ac Abigal. Ganwyd Awaken Worship Night yn Aberdeen o weledigaeth un o'r bobl ifanc yn yr eglwys leol, gyda gweledigaeth i gasglu pobl ar draws y ddinas i foli ac i weddïo gyda'i gilydd dros y rhanbarth. Rhanna Oliver eto dipyn o'i galon am y noson fawl yn Westwood: "Roeddwn i am i'r noson fod yn lle fyddai'n cynnau'r tân hwnnw ynom ni sydd yn ein cymell ni i eisiau addoli Duw yn fwy, ac y byddai'r fflam yna'n parhau i losgi!" Gweddïwn yn wir y byddai'r Arglwydd yn parhau i gynnal y tanau sydd yng nghalonnau pobl ifanc yn yr Alban!

Dod i nabod... Maggie Hughes



*Yn y rhifyn hwn o 'Dod i Nabod', cawsom sgwrs gyda **Maggie Hughes** o **Eglwys Caersalem,** a chlywed tipyn am ei thaith - o Lerpwl, i Fangor, i Bontypridd, a wedyn nôl i'r Gogledd! Clywsom hefyd dipyn am ei gweinidogaeth: 'Cawl a Chwmni'...*

Shwmae, Maggie! Allech chi ddweud tipyn bach wrthyn ni am eich hunain, ac am eich taith ffydd hyd yma?

Ces i fy ngeni yn Lerpwl, a'm magu mewn teulu Cristnogol. Es i i eglwys annibynnol efengylaidd yn tyfu i fyny – ac, a dweud y gwir, does dim wir amser wedi bod yn fy mywyd pan nad ydw i wedi bod yn byw 'yn Nuw'! Wrth gwrs, fel pawb, dwi wedi cael cyfnodau pan dwi 'di stryglo gyda fy ffydd dros y blynyddoedd. Ar yr adegau yna, byswn i'n parhau i fynd i'r capel - ond dod yn ymwybodol weithiau o'r haenau sydd wedi cael eu 'hychwanegu' at y ffydd fel petai. Wedyn, byswn i'n trio sortio mas yn fy mhen beth oedd yn bwysig, beth oedd yn wir ayyb. Yn y diwedd – des i i'r casgliad eich bod chi'n gallu cael gwared ar lot o bethau, ond dydych chi ddim yn gallu cael gwared ar berson Iesu Grist! Des i i gredu bod gymaint o dystiolaeth ei fod wedi byw ac yn berson go iawn – ac wedyn cafodd fy ffydd ei adeiladu ar y sail yna.

Es i i astudio Seicoleg yn y Brifysgol ym Mangor, a symud i Fangor ble cyfarfûm i a'm gŵr (Dewi Arwel Hughes). Arhoson ni yno am sawl blwyddyn gan fod Dewi yn fyfyriwr parhaol! Roedd hwnnw'n gyfnod anodd yn ariannol, gan mai ond tipyn o arian grant oedd gennym i fyw arni. Doedd dim llawer o arian o gwbl yn y cyfnod yna – ac roedd hi'n anodd byw ar gyn lleied. Byswn i'n gofyn weithiau: 'Pam nad yw Duw yn darparu mwy ar ein cyfer ni?'. Serch hynny, naethon ni ddarganfod yn y cyfnod hwnnw beth oedd wir yn bwysig mewn bywyd!

Yn eitha sydyn, cafodd Dewi gynnig swydd fel darlithydd ym Mhontypridd – Ar ôl symud i Bontypridd, daethon ni i nabod grŵp o bobl ifanc yn yr ysgol, ac yn syfrdanol, roedd hi'n teimlo fel tipyn bach o 'ddiwygiad' yn edrych nôl – achos daeth nifer fawr ohonyn nhw i gredu yng Nghrist! Roedd hynny'n ysgogiad i ni o ran ein ffydd.

Roedd eich gŵr, Dewi, yn adnabyddus fel gweithiwr Tearfund yng Nghymru, ac fel diwinydd. Sut effaith gafodd hynny ar eich bywyd?

Fi ddaeth i gysylltiad yn gyntaf gyda Tearfund fel gwirfoddolwr ym Mhontypridd. Roedd hynny'n allweddol – am i ni fel teulu cyfan wedyn ddod ynghlwm gyda Tearfund am flynyddoedd lawer. Yna, dechreuodd Dewi weithio ar eu cyfer nhw, ac yn y pen draw gofynnwyd iddo fod yn gynghorydd diwinyddol. Fe wnaethom ni ddysgu llawer am gyfoeth Cristnogaeth fyd-eang, am galon Duw dros y rhai sy'n byw mewn tlodi (ac uniaethu ychydig ar ôl ein profiadau ni ym Mangor!), a chael ein hannog yn fawr fel teulu cyfan trwy'r profiadau gaethon ni gyda Tearfund.

Gaethoch chi brofedigaeth wedyn wrth golli eich gŵr. Sut wnaethoch chi deimlo llaw Duw yn eich arwain wedi hynny?

Ar ôl i Dewi farw yn 2017, fe wnes i fyth ddychmygu y byswn i'n gadael Pontypridd. Serch hynny, fe wnaeth amgylchiadau teuluol agor cyfle i fi symud yn ôl i'r Gogledd, a byw yn fwy agos at fy mhlant ac wyrion. Roedd hi'n ddiddorol sut caeodd nifer o ddrysau ym Mhontypridd, ond agorodd drws i fi brynu tŷ yn y Gogledd. Symudais i i Gaernarfon, gyda'r bwriad y byddwn i ond yno dros dro. Doedd dim llawer o gysylltiadau gen i yn y Gogledd, ond roedd cysylltiad gyda'r teulu â Rhys a Menna – sydd yn arwain Eglwys Caersalem, Caernarfon. Felly, roeddwn i'n hapus iawn yn ymgartrefu yn yr eglwys yna. Yn fuan wedyn, daeth Covid-19, a diflannodd bob syniad am adael!

Beth sydd wedi bod yn anogaeth ac yn ffocws i chi ers hynny?

Yn ystod Covid, a phethau'n dechrau mynd yn anodd o ran costau egni a byw - fe wnaeth Menna ofyn tybed a fyddai modd i ni wneud rhywbeth fel eglwys i helpu rhai yn y gymuned fyddai'n cael eu heffeithio. Ystyrion ni sut allen ni fendithio eraill gyda'r hyn oedd gyda ni fel eglwys – a ches i'r syniad eitha syml o goginio cawl, gwahodd pobl i ymuno â ni, a chynnig cwmni a lle cynnes. Dyna sut ddechreuodd gweinidogaeth 'Cawl a Chwmni' yr Eglwys, sydd wedi bod yn rhedeg nawr dros bedair blynedd!

Mae gwasanaethu yno wedi bod yn fendith fawr, ac mae cymuned wedi ffurfio o gwmpas 'Cawl a Chwmni' – rhai o'r eglwys, a nifer o'r gymuned. Dyn ni wedi gweld ymateb hyfryd o'r eglwys o ran cymorth a gwirfoddolwyr, ac mae'r rhai sydd yn dod yn aml yn cyfathrebu gymaint mae'r gymuned yn meddwl iddyn nhw. Er nad ydyn ni'n 'pushy' o ran ein ffydd, mae cyfleoedd wedi bod i rannu ein ffydd yn naturiol, trwy sgwrs, gwahoddiad i fyfyrdod Grawys (cafon ni ymateb hyfryd llynedd i hynny!), neu gynnig gweddi. Wrth edrych ymlaen, fy ngweddi yw y byddai mwy o bobl nad ydynt wir yn adnabod Iesu yn dod i'w adnabod, ac y byddai mwy yn cael eu denu at Ei bresenoldeb trwy'r weinidogaeth a'r croeso.